## CEFNOGAETH I RIENI A GOFALWYR

Gallwn ddarparu:

- Adnoddau ASDinfoWales
- Gwybodaeth ôl-ddiagnostig, cefnogaeth, cymorth a chyngor cyfeirio
- Cefnogaeth i ddeall a datblygu strategaethau ymdopi, trefnu a sgiliau bywyd eich plentyn
- Cysylltiadau i gyfleoedd hyfforddi a grwpiau cefnogi
- Cefnogaeth a chyngor mewn perthynas ag ymddygiad heriol

Mae'r Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig yn cynnig cefnogaeth mewn cydweithrediad ag ystod o gyrff o fewn eich cymuned.

Bydd gwybodaeth amdanoch chi yn cael ei defnyddio neu ei throsglwyddo i eraill sy'n ymwneud â'ch cefnogaeth dim ond os bydd angen a gyda'ch caniatâd gwybodus.

Os ydych angen gwybodaeth bellach am sut y gallwn ddefnyddio eich gwybodaeth bersonol, siaradwch â'r tîm.

CYSYLLTWCH Â NI:
01352 702 090
NW.IAS@flintshire.gov.uk

www.ASDinfoWales.co.uk

# GWYBODAETH I RIENI A GOFLAWYR UNIGOLION AWTISTIG

# GWASANAETH AWTISTIAETH INTEGREDIG

### Y Gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig Gogledd Cymru wedi ei gynnal ar y cyd rhwng iechyd a gofal cymdeithasol gyda chysylltiadau cryf ag addysg.

Mae'r Gwasaneth yn cynnig cysondeb cefnogaeth i unrhyw un ag awtistiaeth trwy gyfnodau pontio, ac yn helpu pobl i gyflawni beth sy'n bwysig iddynt.

Mae ein gwasanaeth ar gyfer unigolion sydd heb anawsterau iechyd meddwl nag anabledd dysgu cymedrol i ddifrifol.

### Mynediad i'r Gwasanaeth

- Rydym yn derbyn atgyfeiriadau gan bobl broffesiynol a hunan-gyfeiriad
- Mae un man mynediad ar gyfer pob cyfeiriad trwy swyddfa'r Gwasanaeth
- Gallwn eich helpu chi i wneud hunan-gyfeiriad

### Rydym yn darparu:

- Gwybodaeth a chefnogaeth cyn ac ar ôl diagnosis
- Cefnogaeth i ddatblygu a gweithredu rhaglenni i fynd i'r afael gyda rhwystredigaeth ac ymddygiad heriol
- Cefnogaeth a chyngor mewn perthynas ag anawsterau cysgu
- Gwybodaeth, cyngor a hyfforddiant i rieni a gofalwyr i ddatblygu strategaethau ymdopi a sgiliau bywyd plant

### Nid ydym yn darparu:

- Asesiadau diagnostig i unigolion o dan 18 oed
- Gofal brys/ argyfwng
- Ymyrraeth mewn argyfwng
- Meddyginiaeth
- Cynlluniau Gofal

# RHAI O'R AGWEDDAU GALLWN HELPU GYDA:

## YMDDYGIAD

## PRYDER

## SGILIAU BYWYD A CHYMDEITHASOL

## PROBLEMAU CYSGU

## CYFATHREBU

## ASESIAD AWTISTIAETH OEDOLION

## RHAGLENNI CYMORTH I RIENI